# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Mehefin 2018

Amser: 14.30 - 15.17

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4769

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Mandy Jones AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)225 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb y Llywodraeth a'r adroddiadau i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau a nodwyd.

## 3 Papurau i'w nodi yn ymwneud ag Offerynnau Statudol

### 3.1 SL(5)226 - Rheoliadau'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 (Diddymu) 2018

Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau a'r weithdrefn ddyrchafedig ar gyfer craffu arnynt. Cytunodd y Pwyllgor i drafod y Rheoliadau yn yr hydref.

### 3.2 SL(5)220 - Rheoliadau Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) 2018

Nododd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth a ddaeth i law ar ôl i'r Rheoliadau gael eu trafod am y tro cyntaf yn y cyfarfod ar 11 Mehefin a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.

## 4 Papurau i’w nodi

### 4.1 Tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Cyfiawnder a chytunodd i gyflwyno tystiolaeth i'r Comisiwn Cyfiawnder.

### 4.2 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Gweithredu Cynigion Comisiwn y Gyfraith

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru): Adroddiad Drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i ystyried fersiwn ddiwygiedig yn y cyfarfod nesaf.

## 7 Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd: Cytundeb Rhyng-Sefydliadol Drafft

Trafododd y Pwyllgor y cytundeb drafft a chytunodd i'w ystyried ymhellach mewn cyfarfod i ddod.

## 8 Bil yr UE (Ymadael): Y wybodaeth ddiweddaraf

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf.

## 9 Gwelliannau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd.